Orielau Cymru'n ymuno â chynllun Ein Celf, gan greu rhwydwaith o gelf hygyrch sy'n rhychwantu'r DU gyfan am y tro cyntaf

- **Bydd y cynllun yn olynu cynllun benthyciadau llwyddiannus Cynllun Casglu (Collectorplan) Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd wedi darparu dros 40,000 o fenthyciadau di-log i brynwyr celf yng Nghymru**

Mae gan orielau a sefydliadau celf yng Nghymru fynediad bellach i fenter **Ein Celf,** sef rhaglen sy'n rhychwantu'r DU gyfan gyda'r nod penodol o wneud celf a chrefft cyfoes yn fforddiadwy. Mae ganddo enw Cymraeg (Ein Celf) ac enw Saesneg (Own Art) yng Nghymru a chynllun yw hwn sy'n derbyn cymhorthdal cyhoeddus drwy gefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd yn cynnig benthyciadau di-log ar gyfer prynu gweithiau celf gwreiddiol, ac mae'n olynu'r cynllun benthyciadau hirsefydlog Cynllun Casglu (Collectorplan), sydd wedi hwyluso dros 40,000 o drafodion prynu celf yn llwyddiannus ers i Gyngor Celfyddydau Cymru ei lansio ym 1983.

Mae Ein Celf, sy'n cael ei weithredu gan Creative United mewn partneriaeth â chwmni cyllid Novuna Consumer Finance, yn dathlu ei ben-blwydd yn 20 eleni. Mae'r garreg filltir hon yn cyd-daro ag amseru ymestyn y gwasanaeth i orielau yng Nghymru am y tro cyntaf, o dan gytundeb partneriaeth newydd â Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae dros 300 o orielau ar hyd a lled Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon eisoes yn cymryd rhan yn y cynllun, diolch i nawdd Cyngor Celfyddydau Lloegr, Yr Alban Greadigol a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon.

Rhwydwaith ar hyd y wlad a system gwbl ddigidol
Drwy Ein Celf, gall orielau Cymru bellach gyrraedd cynulleidfa lawer ehangach o brynwyr celf drwy gael mynediad i rwydwaith y cynllun sy'n rhychwantu'r DU gyfan. Byddant yn derbyn cymorth marchnata am ddim er mwyn tyfu ac arallgyfeirio'u sail gwsmeriaid, ac yn elwa hefyd ar arbenigedd cynllun cyllido Novuna, ynghyd â'i wybodaeth o'r diwydiant a'r bartneriaeth hirsefydlog sydd ar waith.

Elfen allweddol a gyflwynwyd gan Ein Celf yng Nghymru yw'r system gwbl ddigidol i brosesu'r benthyciadau, gan symleiddio'r profiad i orielau a phrynwyr celf fel ei gilydd, drwy hwyluso'r broses o drefnu benthyciadau.

Sefydliadau amrywiol ar draws Cymru
Mae rhwydwaith y **Cynllun Casglu (Collectorplan)** yn adlewyrchu tapestri diwylliannol cyfoethog Cymru, sydd ag ystod amrywiol o dros 60 o orielau a sefydliadau, y mae nifer

ohonynt eisoes wedi cwblhau'r camau trosglwyddo i gynllun Ein Celf. Disgwylir i lawer mwy ddilyn yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

O ofodau celf gyfoes fel **Gallery Ten** yng Nghaerdydd, sy'n arddangos gweithiau gan artistiaid sefydlog o Gymru a rhai sy'n dod i'r amlwg, i ganolfannau celf fel **Oriel Plas Glyn-y-Weddw** yn Llanbedrog, un o leoliadau celf hynaf Cymru sy'n hwb creadigol hanfodol i'r gymuned, mae Ein Celf yn cynnig y cyfle i brynu gweithiau celf a chrefft gwreiddiol gan artistiaid o Gymru a thu hwnt. Ymhlith yr orielau eraill sy'n symud i gynllun Ein Celf mae **Oriel King Street** yng Nghaerfyrddin sy'n cael ei harwain gan artistiaid, ynghyd ag **Oriel Ffin y Parc** yn Llandudno, lle mae arddangosfeydd deinamig sy'n arddangos rhai o fawrion celf gyfoes Cymru ochr yn ochr â gweithiau celf eithriadol o'r ugeinfed ganrif.

Dros 300 o orielau ar draws y DU
Ers ei lansio yn 2004, mae Ein Celf wedi darparu dros 80,000 o fenthyciadau drwy rwydwaith o dros 300 o orielau, ffeiriau celf a sefydliadau sy'n cael eu harwain gan artistiaid ar draws y DU, gan helpu mwy na 50,000 o brynwyr celf i brynu gweithiau gan artistiaid sefydlog ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg, tra'n cefnogi sector celf weledol bywiog y DU gyda gwerth dros £79 miliwn o werthiannau.

Nododd arolygon ymysg defnyddwyr y cynllun a gynhaliwyd gan Novuna ei bod yn fwriad gan 91% o ddefnyddwyr brynu mwy o gelf o ganlyniad i'w profiad, gyda 7 o bob 10 cwsmer yn dweud na fyddent wedi prynu'r gwaith celf pe na bai'r cynllun wedi bod ar gael.

Dywedodd Dafydd Rhys, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru: "*Ers ei lansio ym 1983, mae'r Cynllun Casglu wedi bod yn fenter arloesol o ran ymestyn mynediad i gelf yng Nghymru drwy gynnig ffordd syml o brynu gweithiau celf mewn rhandaliadau di-log. Drwy ymuno â rhwydwaith Ein Celf ar draws y DU, a lansio Ein Celf yma yng Nghymru, rydym yn cynnig hyd yn oed fwy o gyfleoedd i orielau ac artistiaid yng Nghymru godi eu proffil a chysylltu â phobl o bob man sy'n caru celf*."

Dywedodd Mary-Alice Stack, Prif Weithredwr Creative United: "*Rydym wrth ein bodd yn croesawu orielau Cymru i rwydwaith Ein Celf am y tro cyntaf yr hydref hwn, gan adeiladu ar waddol y Cynllun Casglu. Wrth i ni ymestyn y gwasanaeth i Gymru, ein nod yw darparu hyd yn oed fwy o gyfleoedd i bobl sy'n caru celf gysylltu ag artistiaid ac orielau. Mae'r estyniad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i sbarduno'r economi greadigol drwy wneud celf yn fforddiadwy i gynulleidfaoedd ehangach ym mhob cwr o'r DU*."

Cefnogir Ein Celf / Own Art gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon a'r Loteri Genedlaethol drwy Yr Alban Greadigol.

Mae'r cynllun yn cynnig y cyfle i gwsmeriaid brynu gwaith celf gwreiddiol a lledaenu'r gost dros 10 mis gyda budd benthyciad di-log.

- DIWEDD -

Cyswllt cyfryngau
Irene Ruiz Garrido | irene.ruiz.garrido@flint-culture.com | +44 747338887

Nodiadau i Olygyddion

Cefndir Ein Celf / Own Art
Menter a gyllidir yn gyhoeddus sy'n rhychwantu'r DU gyfan yw Ein Celf / Own Art. Mae'n gwneud prynu celf a chrefft cyfoes yn fforddiadwy drwy ddarparu credyd di-log i brynu gwaith gwreiddiol. Mae Ein Celf / Own Art yn lleihau'r rhwystrau ariannol a'r canfyddiadau o elitaeth sy'n bodoli'n gyffredin yn y farchnad gelf, drwy ei gwneud yn haws ac yn fwy fforddiadwy i bobl brynu celf a chrefft gwreiddiol, ni waeth beth fo'u hincwm neu eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Ers 2004, mae'r cynllun wedi galluogi dros 50,000 o gwsmeriaid i gael mynediad i'r gelf maent yn ei charu drwy fwy na 79,000 o fenthyciadau. Mae Ein Celf / Own Art, sy'n cael ei ddarparu gan rwydwaith o fwy na 300 o orielau, ffeiriau celf a sefydliadau sy'n cael eu harwain gan artistiaid, wedi cefnogi gwerth dros £80 miliwn o werthiannau celf a chrefft cyfoes hyd yma i gwsmeriaid yn y DU.

Cefndir Creative United
Cwmni Buddiant Cymunedol entrepreneuraidd yw Creative United sy'n ymdrechu dros dwf economaidd ac effaith gymdeithasol yn y celfyddydau, y diwydiannau diwylliannol a'r diwydiannau creadigol. Rydym yn darparu ystod o raglenni a gwasanaethau busnes sy'n galluogi datblygiad a chynaliadwyedd sefydliadau a mentrau sy'n gweithredu yn y sectorau hyn. Ein gweledigaeth yw bod artistiaid, mentrau creadigol a sefydliadau diwylliannol yn cael mynediad i'r sgiliau arbenigol, y cyngor proffesiynol a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu huchelgeisiau o ran twf ac effaith yn eu cymunedau. Ein cenhadaeth yw creu economi greadigol gynaliadwy a chydnerth, gan wneud y celfyddydau'n hygyrch i bawb.

Cefndir Novuna Consumer Finance
Mae Novuna Consumer Finance yn un o ddarparwyr cyllid manwerthu amlycaf y DU, gan ddarparu cyllid wrth fannau manwerthu a benthyciadau personol. Mae'n rhoi benthyg £2.3bn i fwy na miliwn o gwsmeriaid bob blwyddyn. Mae'r busnes yn gweithio gyda 3,500 o fanwerthwyr o enwau brand y stryd fawr i fanwerthwyr e-fasnach unigryw ar-lein, gan ddarparu atebion cyllid cyflym a hyblyg sy'n integreiddio i bob sianel. Mae ei

sianel fenthyciadau personol, Novuna Personal Finance, wedi'i bleidleisio'n enillydd 'Darparwr Benthyciadau Personol Uniongyrchol Gorau' y DU yng Ngwobrau 'Your Money' ers deng mlynedd yn olynol, ac mae sgorau bodlonrwydd cwsmeriaid y cwmni ymhlith yr uchaf yn y farchnad. Mae Novuna Consumer Finance yn un o arddulliau masnachu Mitsubishi HC Capital UK PLC, rhan o Mitsubishi HC Capital Inc., un o grwpiau ariannol mwyaf a mwyaf amrywiol y byd, gyda mwy na 11trn yen (£57bn) o asedau.

Cefndir Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru yw corff cyhoeddus swyddogol y wlad ar gyfer cyllido a datblygu'r celfyddydau. Bob dydd, mae pobl ar draws Cymru'n mwynhau'r celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddynt. Rydym yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r arian cyhoeddus sydd ar gael i ni drwy Lywodraeth Cymru a thrwy ddosbarthu'r arian a dderbyniwn fel achos da gan y Loteri Genedlaethol. Drwy reoli a buddsoddi'r arian hwn mewn gweithgarwch creadigol, mae Cyngor y Celfyddydau'n cyfrannu at ansawdd bywyd pobl a llesiant diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Cefndir Cyngor Celfyddydau Lloegr
Cyngor Celfyddydau Lloegr yw'r asiantaeth ddatblygu genedlaethol yn Lloegr ar gyfer creadigrwydd a diwylliant. Rydym wedi nodi ein gweledigaeth strategol yn nogfen 'Let's Create', sef i weld Lloegr, erbyn 2030, yn wlad lle mae creadigrwydd pob un yn cael ei werthfawrogi, a lle mae cyfle i bob un ffynnu a chael mynediad i ystod eithriadol o brofiadau diwylliannol safonol. Rhwng 2023 a 2026 byddwn yn buddsoddi dros £467 miliwn o arian cyhoeddus gan y Llywodraeth ac oddeutu £250 miliwn gan y Loteri Genedlaethol bob blwyddyn i helpu i gefnogi'r sector a chyflawni'r weledigaeth hon. Eleni, bydd y Loteri Genedlaethol yn dathlu 30 mlynedd o gefnogi achosion da yn y Deyrnas Unedig drwy godi £49 biliwn a dyfarnu dros 690,000 o grantiau unigol ers iddi ddechrau ym 1994. Ewch i'n gwefan i gael gwybod mwy.

Cefndir Yr Alban Greadigol / Creative Scotland
Yr Alban Greadigol / Creative Scotland yw'r corff cyhoeddus sy'n cefnogi diwylliant a chreadigrwydd ar draws pob rhan o'r Alban, gan ddosbarthu cyllid a ddarperir gan Lywodraeth yr Alban a'r Loteri Genedlaethol. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn creativescotland.com. Dilynwch ni ar Facebook, LinkedIn, ac Instagram. Dysgwch fwy am werth celf a chreadigrwydd yn yr Alban a chymryd rhan yn www.ourcreativevoice.scot

Cefndir Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon
Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon yw'r brif asiantaeth cyllido a datblygu ar gyfer y Celfyddydau, gan ddarparu cefnogaeth i brosiectau celf ar draws y rhanbarth, drwy ei gyllid gan y Trysorlys a'r Loteri Genedlaethol. Mae cyllid Cyngor y Celfyddydau'n galluogi artistiaid a sefydliadau celf i gynyddu mynediad i'r celfyddydau ar draws cymdeithas a darparu celf ragorol sydd o fewn cyrraedd pawb. Hyd yma, mae pobl sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol wedi helpu i godi £48 biliwn ar gyfer Achosion Da, gyda mwy na

685,000 o ddyfarniadau unigol wedi'u cyflwyno ar draws y DU. Gyda channoedd o grantiau'r loteri'n cael eu dyfarnu i ardal pob cod post, bydd y rhan fwyaf o bobl wedi elwa ar ryw bwynt ar brosiect a gyllidwyd gan y Loteri Genedlaethol.